

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

8 Gorffennaf 2015

Annwyl Carl

Cynnig am Reoliad Ewropeaidd ar Organebau a Addaswyd yn Enetig

Yn ein cyfarfod ar 22 Mehefin 2015, gwnaethom ystyried cynigion y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Rheoliad newydd ynghylch defnyddio bwyd a bwyd anifeiliaid a addaswyd yn enetig.

Nodwyd nad oes unrhyw awgrym ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU y bydd y gweinyddiaethau datganoledig yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynghylch y Rheoliad arfaethedig. Gan fod materion sy'n gysylltiedig ag amaeth wedi'u datganoli, a allwch gadarnhau mai Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol fydd yn penderfynu ar y mater hwn? Byddai'n ddefnyddiol hefyd pe gallech ddarparu manylion am unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynglŷn â hyn.

Rydym yn ymwybodol bod nifer o seneddau a chynulladau rhanbarthol wedi mynegi pryderon am y cynigion, gan gynnwys seneddau Thüringen (yr Almaen), Rwmania ac Iwerddon. Dyma grynodedb o bryderon Senedd Talaith Thüringen:

“Bearing in mind the very strict legal requirements set out by the Commission in its proposal, it is highly questionable whether it is actually possible for a Member State to adopt opt-out measures in compliance with EU-law, especially with regards to the international obligations of the Union. Questionable is also to what extent the involvement of all 28 EU states in the mandatory notification and control procedure contributes to fulfil the intended objectives.”



Byddai gennym ddiddordeb clywed i ba raddau, os o gwbl, yr ydych chi'n cytuno â'r pryderon hyn.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "David Melding". The signature is written in a cursive style with a long, sweeping tail on the final letter.

David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

